

Adroddiad Ansawdd Academaidd 4: Cydraddoldeb Profiad

Gorffennaf 2020



Rhagair

Mae'n bleser gan UMyDDS gyflwyno'r pedwerydd Adroddiad Ansawdd Academaidd blynyddol, sy'n parhau i fod yn un o'n darnau pwysicaf o waith. Mae parodwydd y Brifysgol i ymateb yn rhagweithiol i'n canfyddiadau a'n hargymhellion bob blwyddyn o hyd wedi creu argraff ffafriol, ac edrychwn ymlaen at gynnal y momentwm, gan barhau i weithio mewn partneriaeth agos i wella profiad myfyrwyr ar draws y sefydliad. Yng ngoleuni newidiadau strwythurol diweddar a phwyslais gan y sefydliad ar greu lleoedd, eleni rydym wedi penderfynu canolbwyntio ein hymchwil ar gydraddoldeb profiadau academaidd ar draws corff myfyrwyr PCyDDS.

Mae PCyDDS wedi gosod ei hun fel sefydliad amrywiol ac amrywiaethol - prifysgol aml-gampws sy'n cynnig ystod eang o ddysgu unigryw ar draws tri phrif gampws yng Nghymru a thu hwnt, mewn canolfannau allgymorth ac ar gampysau atodol. Rydym yn cydnabod bod y rôl hon, ochr yn ochr â phortffolio galwedigaethol y Brifysgol, yn golygu ei bod fel sefydliad yn chwarae rhan bwysig mewn cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o bob cefndir, a hynny i rai yn eu cymunedau eu hunain. Fel Undeb Myfyrwyr, rydym yn falch iawn o gefnogi'r gwaith rhagorol hwn, ac yn ein rôl fel ffrind beirniadol, rydym am sicrhau bod y Brifysgol yn ymateb i anghenion y corff myfyrwyr cyfnewidiol hwn.

Yn y penodau sy'n dilyn, rydym yn amlinellu'r tueddiadau a nodwyd gennym yn sgil cynnal Arolwg Mawr yr UM 2019/20 a gweithgaredd yn y dosbarth gyda grwpiau myfyrwyr ar draws PCyDDS. Rydym wedi dynodi meysydd lle mae

myfyrwyr yn teimlo eu bod dan anfantais neu angen mynediad at adnoddau ychwanegol, a chredwn, drwy fynd i'r afael â'r meysydd hyn, y gellir sicrhau profiad myfyrwyr mwy cyson, gan wella boddhad myfyrwyr yn gyffredinol.

Teimlwn yn gyffrous i gyflwyno'r darn hwn o waith i'r Brifysgol, ond rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig cydnabod yr amgylchiadau digynsail sy'n bodoli ar hyn o bryd; yn ystod pandemig a chyfnod o straen ac ansicrwydd aruthrol. Ni allwn ond canmol parodwydd a dyfalbarhad y Brifysgol wrth addasu i'r sefyllfa sy'n datblygu. Rydym wedi sylwi ar ymdrechion staff Proffesiynol ac Academaidd, sydd wedi gwneud gwaith rhagorol wrth symud i addysgu ar-lein, gan barhau i ddarparu profiad cefnogol o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Hoffem ddefnyddio hwn fel cyfle i ddiolch i gymuned PCyDDS am bopeth maen nhw wedi'i wneud dros fyfyrwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rydym yn parhau i ystyried yr Adroddiad Ansawdd Academaidd fel un o arwyddion llwyddiant ein partneriaeth, ac edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd, gan roi'r newidiadau cadarnhaol hyn ar waith dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Diolch,
Becky, Elis a
Martha



Pennod 1: Deilliannau ac Argymhellion 1, 2 a 3 yr AAA

Fel Undeb Myfyrwyr, rydym wrth ein bodd â'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion ein Hadroddiadau Ansawdd Academaidd yn y gorffennol. Mae'r tabl isod yn amlinellu ein hargymhellion gwreiddiol, ymateb y Brifysgol, a'n barn gyfredol ar sut y cânt eu gweithredu ar draws y sefydliad. Eleni rydym wedi penderfynu tynnu llinell dan nifer o'n hargymhellion yn y gorffennol, gan ein bod yn fodlon bod y sefydliad wedi mynd i'r afael â nhw.

AAA 1: Costau Cudd ar Gyrsiau

1 a, b & c

Yn ôl argymhellion 1a, b & c, dylai'r Brifysgol wneud addasiadau i'w deunydd hyrwyddo, gan gynnig gwell eglurder ynghylch y costau ychwanegol y byddai myfyrwyr yn eu hwynebu drwy gydol eu hastudiaethau. Roeddent hefyd yn sicrhau y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn deunydd hyrwyddo ar lefel cwrs, ac y byddai'r costau ychwanegol sy'n perthyn i gyrsiau'n cael eu hasesu fel rhan o broses ddatblygu'r rhaglen.

Ymateb yr UM:

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ers ein AAA cyntaf ar ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n ymwneud â chostau cudd ar gyrsiau. Rydym yn fodlon bod y Brifysgol, ers AAA 3, wedi ymateb yn gadarnhaol, ac wedi mynd ati i gynnwys y wybodaeth hon mewn deunyddiau marchnata ac ar y wefan.

Rydym yn falch o ddwyn yr argymhelliad hwn i ben, ond byddwn yn parhau â'n harchwiliad blynyddol o ddatganiadau cost cyrsiau ac yn adrodd ar ein canfyddiadau i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr i sicrhau cynnydd parhaus.

2a & b

Gofynnwyd i'r Brifysgol ymchwilio i'r bwrsariaethau mae'n ei chynnig ar hyn o bryd a cheisio ehangu'r hyn sydd ar gael, gan dargedu myfyrwyr sy'n wynebu costau cwrs ychwanegol uwch fel rhaglenni Celf, Addysg Awyr Agored, a myfyrwyr ar leoliadau gwaith.

Ymateb yr UM:

Rydym yn fodlon bod yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac edrychwn ymlaen at barhau i ymgynghori'n ystyrlon â'r Brifysgol yn ystod ei phroses o adolygu bwrsariaethau.

3a & b

a. Cynnal adolygiad llawn o'r costau cysylltiedig cyfredol sy'n perthyn i astudiaethau myfyrwyr, gan ddefnyddio categorïau CCAUC.

b. Datblygu cynllun gweithredu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o sicrhau bod baich y costau hyn yn cael ei rannu yn y modd mwyaf cyfiawn.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Bydd dadansoddiad o ffurflenni PV2a yn cael ei gwblhau'r haf hwn, ac fe'i defnyddir fel canllaw a sail i fwrsariaethau.

Ymateb yr UM:

Unwaith y bydd y ffurflenni PV2a wedi cael eu dadansoddi, byddwn yn ddigon bodlon gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu'r gwaith yn y maes hwn. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academiaidd 2020/21. Yn unol ag AAA 3, byddem o blaid creu gweithgor i lunio argymhellion.

AAA 2: Trefniadaeth a Chyfathrebu Cyrsiau

AAA 2.1**Crynodeb:**

Gwaed argymhelliad y dylai'r Brifysgol geisio defnyddio system gyfathrebu wahanol i e-bost ar gyfer trosglwyddo'r negeseuon pwysicaf i'w myfyrwyr.

Ymateb yr UM:

Rydym yn falch iawn â'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhelliad

hwn, datblygiad yr Hwb Myfyrwyr a'r ap Hwb. Rydym yn falch o allu tynnu llinell o dan yr argymhelliad hwn.

AAA 2.2

Dylid monitro'r polisi newydd ynghylch Canslo, Gohirio ac Ail-drefnu Dosbarthiadau yn rheolaidd o ran effeithiolrwydd a chysondeb.

Ymateb yr UM:

Rydym yn ddiolchgar bod diweddariadau ar effeithiolrwydd a chysondeb y polisi hwn bellach yn cyrraedd y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr. Rydym yn hapus i ddod â'r argymhelliad i ben.

AAA 2.3

Dylai'r Brifysgol ymrwmo i gyhoeddi amserlenni cywir i bob myfyriwr o leiaf wythnos cyn i'r addysgu ddechrau ym mhob tymor, a bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ychwanegu at siarter y myfyrwyr, ei fod yn cael ei fonitro a'i adrodd yn ôl i bwyllgor priodol y Brifysgol.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae angen i ganllawiau ynghylch amserlenni gael eu cytuno cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd 2020/21.

Ymateb yr UM:

Er ein bod yn cael ar ddeall bod cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, ac mae ymrwymiad wedi'i ychwanegu at Siarter y Myfyrwyr, mae hwn yn parhau i fod yn fater sy'n peri anfodlonrwydd i lawer o fyfyrwyr. Yn ôl data a gasglwyd o'n harolwg Croeso ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd hon, lle derbyniwyd 995 o ymatebion, roedd 26% o'r rhai a ymatebodd wedi derbyn eu hamserlenni lai nag wythnos cyn i'r addysgu ddechrau. Roedd 10% wedi derbyn eu hamserlenni lai na dau ddiwrnod cyn i'r addysgu ddechrau, ac 8% ar ôl i'r addysgu ddechrau. Nid oedd 18% o'r ymatebwyr wedi derbyn amserlen gywir ar yr adeg yr aethant ati i gwblhau'r arolwg.

Byddwn yn parhau i adolygu'r broses amserlennu drwy gynnal ein harolwg Croeso, ac rydym yn awyddus i gymharu canlyniadau ar ôl cyflwyno canllawiau yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2020/21.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn fodlon iawn gweithio gyda'r Brifysgol i gyd-greu'r canllawiau hyn.

AAA 2.4

Dylai'r Brifysgol adolygu'r broses ymrestru (ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd) er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn amserol a bod y broses yn effeithiol ac yn hygyrch.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae gwaith pellach ar wella profiadau ymrestru yn cael ei wneud yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21. E.e. mae digwyddiadau ymrestru ar-lein ar y gweill i gynorthwyo myfyrwyr pan fyddant yn ymrestru a gwneud cais am gyllido. Mae hyn yn rhan o adolygiad o'r trefniadau sefydlu.

Ymateb yr UM:

Rydym yn cydnabod bod llawer o waith wedi cael ei wneud yn y maes hwn ers AAA 2; serch hynny, rydym yn awyddus i fonitro hyn yn ofalus o ystyried ei bwysigrwydd i lefel 'Diogelwch' Hierarchaeth Anghenion Myfyrwyr.

AAA 2.5

Dylid cynllunio'r broses ymrestru o amgylch y myfyriwr, nid o amgylch strwythur uned weinyddol y Brifysgol. Dylid ystyried darparu adnoddau tymhorol ychwanegol i weithredu fel pwynt cyswllt canolog, rhagweithiol i ddatrys materion ymrestru.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Gweler uchod ynglŷn â'r digwyddiadau ymrestru i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr.

Mae gwybodaeth ariannol wedi'i hadolygu a bydd gwell gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn y pecynnau a anfonir at fyfyrwyr newydd.

Ymateb yr UM:

Mae cyflwyno'r Hwb wedi bod yn ddatblygiad rhagorol ac rydym yn ei groesawu. Mae ymateb diweddaraf y Brifysgol yn galonogol iawn; serch hynny hoffem gadw'r argymhelliad hwn ar agor fel maes ar gyfer gwelliant parhaus.

AAA 2.6

Mae angen i'r Brifysgol fonitro a chasglu gwybodaeth am faterion sy'n perthyn i ymrestru'n flynyddol at ddibenion adolygu a datblygu.

Ymateb yr UM:

Rydym yn cael ar ddeall bod hyn eisoes yn digwydd, a hoffem gadw'r argymhelliad ar agor fel maes ar gyfer datblygiad parhaus. Hoffai Undeb y Myfyrwyr barhau i helpu ag adolygu'r broses yn flynyddol fel rhan o'r cylch busnes arferol.

AAA 2.7

Dylai'r Brifysgol gwblhau archwiliad 2017-18 o 'Safonau Sylfaenol Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh)' a defnyddio'r wybodaeth i wella defnydd ac ymgysylltiad, datrys problemau o ran mynediad a chanfod anghenion o ran hyfforddi a datblygu.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â phrosiect dysgu ar-lein er mwyn sefydlu fframwaith digidol, gan barhau i uwchsgilio staff mewn sgiliau digidol, gwella ansawdd yr addysgu a gynigir ar-lein a thrwy lwyfannau ar-lein a chynyddu hygyrchedd adnoddau ar-lein.

Ymateb yr UM:

Fel Undeb Myfyrwyr rydym wrth ein bodd â'r gwelliannau yn y maes hwn, a'r ymdrech a wnaed i ymgorffori sgiliau llythrennedd digidol yn natblygiad staff. Mae gennym ddiddordeb mewn gweld cynnydd pellach yn y maes hwn o ystyried y newid dros dro i addysgu ar-lein yn unig.

AAA 2.8

Dylid hyrwyddo'r Safonau Sylfaenol ADRh i fyfyrwyr, a'u gwneud yn hygyrch iddynt, er mwyn sefydlu lefel disgwyliadau.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Rydym yn adolygu safonau sylfaenol fel rhan o ddatblygiad fframwaith digidol newydd, a byddwn yn cyhoeddi disgwyliadau ar gyfer myfyrwyr ynghylch dysgu ar-lein cyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2020/21. Gosodir dolen yn Siarter y Myfyrwyr.

Ymateb yr UM:

Rydym yn falch o glywed am y datblygiad hwn, ac edrychwn ymlaen at weld y safonau ar gael i fyfyrwyr yn Siarter y Myfyrwyr. Hoffem gadw'r argymhelliad hwn ar agor am y tro, a byddwn yn adolygu cynnydd pellach yn ein hadroddiad nesaf.

AAA 2.9

Dylid gofyn i'r staff addysgu gydymffurfio â'r safonau hyn mewn ffordd debyg i'r gofyniad sydd ar fyfyrwyr i addo ymgysylltu a defnyddio'r llwyfan.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Byddwn yn gweithio gydag Athrofeydd i hyrwyddo'r hyb adnoddau ar-lein, yr adnoddau sydd ar gael a'r disgwyliadau.

Ymateb yr UM:

Rydym yn croesawu camau i hyrwyddo'r safonau hyn i staff, ond teimlwn y byddai cynnwys mwy o atebolrwydd yn y maes hwn o fudd i lefelau boddhad myfyrwyr. Byddwn yn mynd ati i adolygu unwaith y bydd y safonau wedi'u hychwanegu at Siarter y Myfyrwyr.

AAA 2.10

Dylid sicrhau bod gwybodaeth am leoliadau gwaith a chyfathrebu'n gywir ac yn amserol.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Roedd cynlluniau ar y gweill i fonitro arfer da yn achos lleoliadau gwaith ar gyfer y semester hwn, ond nid oedd hyn yn bosibl oherwydd Covid-19 gan fod pob lleoliad gwaith wedi dod i ben. Byddwn yn parhau i ystyried hyn yn ystod y flwyddyn academiaidd 2020/21 ac yn adolygu'r bennod gysylltiedig yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd.

Ymateb yr UM:

Hoffem weithio gyda'r Brifysgol i ystyried gosod amser priodol rhwng hysbysu myfyrwyr o'u lleoliad gwaith penodol a dechrau eu diwrnod cyntaf. Yn ddelfrydol, hoffem i'r argymhelliad hwn gyd-fynd â chanllawiau ar gyfer amserlennu.

Rydym yn sylweddoli bod Covid-19 wedi tarfu ar weithgareddau, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda'r Brifysgol ar faterion yn ymwneud â dyrannu lleoliadau gwaith a chyfathrebu yn y flwyddyn academiaidd nesaf.

AAA 3: Iechyd Meddwl Myfyrwyr

AAA 3.1

Mae'r Brifysgol yn parhau i gyflwyno hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer staff rheng flaen ac yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i ddynodi staff ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol. Hoffai Undeb y Myfyrwyr weld yr hyfforddiant iechyd meddwl yn ffurfio rhan o hyfforddiant Tiwtoriaid Personol.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Bydd cam nesaf y rhaglen hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl yn cael ei gyflwyno'n fuan fel rhan o gais CCAUC. Mae cydlynnydd ar gyfer cais CCAUC wedi cael ei benodi.

Mae'r modiwl hyfforddiant iechyd meddwl gorfodol ar-lein wedi'i gyflwyno i'r holl staff ac mae'r nifer sy'n ymgymryd â'r cynllun yn cael ei fonitro'n ganolog.

Mae Strategaeth Iechyd a Llesiant yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, mewn cydweithrediad agos â'r UM a rhanddeiliaid allweddol eraill. Y dyddiad cau ar gyfer ei chwblhau yw 26 Mehefin (mae dyddiad cau newydd CCAUC oherwydd argyfwng Covid-19).

Cyflwynwyd hyfforddiant I-Act i reolwyr yn ystod tymor cyntaf 2019/20.

Ymateb yr UM:

Mae Undeb y Myfyrwyr yn ddiolchgar am y cynnydd a wnaed yn y maes hwn. Gan fod y nifer sy'n derbyn yr hyfforddiant yn cael ei fonitro'n ganolog, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am sut mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio, ac os yw'r Brifysgol yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â meysydd lle mae llai o bobl yn cymryd rhan (ar sail athrofa, rhywedd, graddfa gyflog, campws, a.y.b.).

Gan fod yr hyfforddiant hwn yn orfodol, hoffem gael cadarnhad bod nodiadau atgoffa rheolaidd yn cael eu hanfon at staff sydd ddim wedi cwblhau eu modiwl hyfforddiant iechyd meddwl.

AAA 3.2

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweld y system tiwtoriaid personol fel rhan annatod o ganfod anawsterau'n gynnar ac yn ffordd effeithiol i fyfyrwyr gael mynediad hawdd at wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r UM yn credu y dylai pob myfyriwr fod â thiwtor personol ac y dylent gael cyfarfod â'u tiwtor personol o fewn y mis cyntaf o'u hastudiaethau.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac yn rhan o ddull systemig cyffredinol i wella'r fframwaith ar gyfer cefnogaeth i fyfyrwyr (yn enwedig yn achos argyfwng ac anawsterau). Cytunwyd y caiff llinell-amser ar gyfer gweithredu ei datblygu erbyn 1af Mehefin (dyddiad cau newydd oherwydd Covid-19).

Ymateb yr UM:

Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r Brifysgol pan fydd y llinell-amser hon ar gyfer gweithgareddau wedi'i datblygu.

AAA 3.3

Mae datgelu problemau iechyd meddwl yn gynnar yn bwysig iawn, a dylai'r Brifysgol wella'r cyhoeddusrwydd ynghylch datgelu a darparu manylion am y gefnogaeth sydd ar gael. Dylid blaenoriaethu hyn cyn dechrau yn y brifysgol, ond hefyd dylid tynnu sylw at y mater yn gyson gydol yr amser.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Gwnaed gwaith pellach i wella'r broses o asesu anghenion ymgeiswyr sydd wedi datgan fod ganddyn nhw anawsterau iechyd meddwl.

Mae data datgelu, fel y'i cyhoeddwyd yn Adroddiad Cydraddoldeb Blyneddol y Brifysgol, ar waith a byddwn yn ymgymryd â gwaith pellach ar ddata.

Bydd y cynllun cyfathrebu ar gyfer Iechyd Meddwl yn cael ei adolygu.

Ymateb yr UM:

Rydym yn cael ar ddeall bod canllawiau datgelu cychwynnol wedi'u hysgrifennu ar gyfer staff, a hoffem weld mwy'n cael ei wneud i'w hyrwyddo. Byddai ymgyrchoedd sydd wedi'u hanelu at fyfyrwyr a staff i hyrwyddo datgeliad cynnar a lleihau stigma hefyd yn cael eu croesawu yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Rydym yn cydnabod y cynnydd a wnaed o ran asesu ymgeiswyr eleni, a hoffem ddiolch i'r Brifysgol am y gweithgaredd hwn. Mae hwn yn faes yr hoffem weld dilyniant parhaus ynddo.

Rydym yn cydnabod, oherwydd y sefyllfa bresennol lle mae rhaid i bawb aros gartref, bod cyfyngiadau o ran y gefnogaeth y gall y Brifysgol ei chynnig i fyfyrwyr newydd a fyddai fel arfer yn derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. Rydym yn sylweddol bod hyn i bob diben y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol, ond rydym o'r farn ei fod yn fater y dylid ei flaenoriaethu. Hoffem weld myfyrwyr yn cael cynnig rhyw fath o gefnogaeth yn y cyfamser.

AAA 3.4

Mae'r cysylltiad rhwng Athrofeydd academiaidd, Hybiau Myfyrwyr a Gwasanaethau Proffesiynol yn rhan annatod o gynorthwyo ieuchyd meddwl cadarnhaol myfyrwyr ac i sicrhau bod strwythurau atgyfeirio a chymorth addas ar waith. Mae datblygu mecanweithiau i olrhain ac amlygu cymorth ar draws y sefydliad yn cael ei ystyried yn bwysig, oherwydd gall y rhain fod yn rhy ddibynnol ar unigolion ar hyn o bryd.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae hyn yn rhan o'r gwaith systemig a nodwyd mewn perthynas ag argymhelliad 2. Caiff cynllun manwl a llinell-amser eu datblygu erbyn 1af Mehefin (dyddiad cau newydd oherwydd argyfwng Covid-19).

Ymateb yr UM:

Fel gyda'r uchod, edrychwn ymlaen at gynorthwyo'r Brifysgol gyda'r datblygiadau hyn unwaith y gosodir llinell-amser.

AAA 3.5

Mae'n bosib y caiff Sesiynau Astudio gyda Chymorth Cyfoedion (PASS) eu hehangu, yn ogystal â chreu cynllun cyfeillion ieuchyd meddwl. Byddai gan Undeb y Myfyrwyr ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Brifysgol ar brosiect o'r natur yma.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae rôl fentora cyfoedion wedi'i chreu ac ar hyn o bryd mae'n cael ei threialu gan yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (IMH).

Mae'r UM wedi derbyn cyllid ar gyfer hyfforddiant mentora fel rhan o gais Cyswllt CCAUC. Gwelwyd bod gan nifer dda o fyfyrwyr ddiddordeb yn yr hyfforddiant hwn.

Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn adolygu'r cynllun PASS a'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn ar wahanol gampysau.

Ymateb yr UM:

Mae cyflwyno rôl fentora cyfoedion yn IMH yn ddatblygiad addawol, a byddai diddordeb gennym mewn clywed mwy am lwyddiant y cynllun peilot hwn. Hoffem weithio gyda'r Brifysgol i droi hwn yn brosiect ehangach, gan gynnig cyfle i fyfyrwyr ar draws pob athrofa.

AAA 3.6

Dylid caniatáu amser o fewn rhaglen waith pob myfyriwr ar gyfer gweithgaredd i hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant; gallai hyn gynnwys gwirfoddoli, gwaith rhan-amser, gofal plant, gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr neu ymchwil academiaidd unigol. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu dathlu a dylid pwysleisio'r ffaith bod yr amser hwn yn bwysig.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Cytunwyd y byddai'n allweddol hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr. Y garreg filltir allweddol allweddol nesaf ar gyfer hyn fydd dechrau'r flwyddyn academiaidd 2020/21.

Ymateb yr UM:

Rydym yn croesawu'r camau at hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr. O ystyried yr ymrwymiad i ddatblygu gweithgaredd i hyrwyddo iechyd a llesiant drwy un o gynigion CCAUC, byddwn yn adolygu cynnydd yn y maes hwn dros y flwyddyn academiaidd nesaf.

Hoffem weld y Brifysgol yn rhoi mwy o ystyriaeth i hyn pan fydd y canllawiau amserlennu yn cael eu llunio'n barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf.

AAA 3.7

Dylai'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ystyried ymhellach beth yw anghenion iechyd meddwl penodol myfyrwyr o gefndiroedd rhyddhad a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Mae casglu data yn allweddol yma er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am anghenion iechyd meddwl grwpiau penodol. Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn rhan o'r camau y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a'r Strategaeth Iechyd a Llesiant.

Ymateb yr UM:

Rydym yn cael ar ddeall bod data o geisiadau yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel sail i adroddiad blynyddol y Brifysgol ar gydraddoldeb ac amrywioldeb. Hoffem weld y Brifysgol yn nodi unrhyw feysydd lle gellir monitro a defnyddio ffrydiau casglu data ychwanegol i greu darlun mwy cyflawn o amrywioldeb y sefydliad. Er enghraifft, ar MyTSD. Credwn ei bod hi'n arbennig o bwysig monitro newidiadau yn y ffyrdd y mae myfyrwyr yn diffinio eu hunain, a'n bod yn cynnig cymorth sy'n benodol ar eu cyfer nhw.

Rydym yn dal i ystyried hwn fel darn pwysig o waith, a byddwn yn awyddus i'w symud ymlaen pan fydd y data hwn ar gael.

Mae angen adolygu'r rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau academiaidd cyfredol i farnu a ydyn nhw'n addas at y diben o ran iechyd meddwl. Hoffem yn benodol weld prosesau fel addasrwydd i ymarfer ac addasrwydd i astudio yn cael eu cyflymu a'u gwneud yn haws i fyfyrwyr ymwneud â nhw. Mae hefyd yn bwysig adolygu'r amseru ar gyfer asesiadau i sicrhau eu bod yn berthnasol ar gyfer pob carfan - mae myfyrwyr ar addysgu bloc (er enghraifft) eisoes ar eu hasesiad nesaf cyn iddynt gael adborth o'u darn olaf o waith (o dan y model adborth 20 diwrnod) - byddai hyn hefyd yn bwysig i fyfyrwyr sy'n astudio yn Birmingham a Llundain.

Ymateb y Brifysgol (Ebrill 2020):

Cymeradwywyd Polisi Cymorth ar gyfer Astudio newydd ym mis Mawrth 2020 gan y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys cryfhau dulliau cam cyntaf lleol ymhellach. Mae Gweithdrefn Cyfranogiad Trydydd Parti hefyd wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr ym mis Mawrth. Cyflwynwyd y Polisi Cyswllt Brys Myfyrwyr ym mis Chwefror 2020.

Ymateb yr UM:

Fel Undeb Myfyrwyr rydym yn falch o'r newidiadau a wnaed i'r polisi Addasrwydd i Astudio eleni. Credwn ei fod yn cymryd agwedd fwy cefnogol, ac mae'n ymddangos yn fwy 'hygyrch i fyfyrwyr'. Rydym hefyd yn croesawu cyflwyno Polisi Cyswllt Brys Myfyrwyr, a hoffem ganmol y Brifysgol am y datblygiadau cadarnhaol hyn.

Pennod 2: Cydraddoldeb o ran Profiad

Roedd ein penderfyniad i ymchwilio i gydraddoldeb profiad eleni yn seiliedig ar dirwedd gyfnewidiol y sector Addysg Uwch. Mae'n hysbys y bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n dymuno cynnal eu hastudiaethau o amgylch ymrwymadau eraill, yn ogystal â myfyrwyr sy'n dychwelyd i addysg ar ôl cyfnodau hir, ac nid yw PCyDDS yn eithriad yn hyn o beth. Mae cyflwyno cyrsiau hyblyg ar gampysau atodol yn Birmingham a Llundain ac mewn canolfannau allgymorth, yn ogystal â ffocws ar uwchsgilio myfyrwyr drwy gyrsiau galwedigaethol, yn newid sydd i'w groesawu. Ynghyd â hynny, rydym wedi sylwi sut y gall cynnig cyfle i fyfyrwyr archwilio llwybrau rhan-amser, cyfunol a dysgu o bell i Addysg Uwch fod yn drawsnewidiol ac yn rymusol. Fodd bynnag, fel Undeb Myfyrwyr, rydym yn teimlo y dylid gwneud ymdrech i gyflwyno gwell cydraddoldeb yn y meysydd hyn, er mwyn sicrhau cysondeb a chynyddu lefel boddhad myfyrwyr. Credwn er bod arloesi a hyblygrwydd yn hanfodol, fod tegwch hefyd yn allweddol.

Mae'n bwysig nodi o'r cychwyn cyntaf, ein bod yn cydnabod nad yw myfyrwyr i gyd eisiau'r un profiadau, ac felly nad oes angen mynediad arnynt at yn union yr un cyfleusterau ac adnoddau. Er enghraifft, rydym yn sylweddoli y gallai'r bwriad y tu ôl i'r penderfyniad i ymgymryd ag astudiaeth ran-amser fel dysgwr o bell fod yn wahanol i benderfyniad myfyriwr sy'n gwneud cais am gwrs, gyda llety ar y campws, ar ôl cwblhau eu Lefel A. Mae'n debygol efallai na fyddent eisiau neu angen yr un pethau, ond dylent gael cyfle cyfartal a gallu cyrchu'r cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu. Yn hynny o beth, nid pwrpas AAA 4 yw mesur a yw

profiadau mewn un lleoliad yr un fath â'r hyn a gynigir ar safle arall, ond yn hytrach canfod a yw rhai grwpiau myfyrwyr dan anfantais annheg o'u cymharu ag eraill.


Roedd ein hymchwil yn seiliedig i raddau helaeth ar ddadansoddiad o weithgaredd yn y dosbarth a data a gasglwyd drwy Arolwg Mawr yr UM, a gwblhawyd gan 841 o fyfyrwyr ar draws holl gampysau PCyDDS. Defnyddiwyd data o'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Arolwg Ymgysylltiad y DU a'r Arolwg o Brofiadau Ôl-raddedigion a Addysgir, yn ogystal â chanlyniadau'r Arolwg Adnoddau i lywio cyfeiriad ein hymchwil. Cynhaliwyd adolygiad o waith ar achosion i helpu â dynodi patrymau ym mhrofiadau myfyrwyr, a chasglwyd adborth gan Gynrychiolwyr Myfyrwyr i roi cydbwysedd o ran mewnwleidiad ansoddol a meintiol. Rydym wedi defnyddio'r offer hyn i ymchwilio ar lefel Prifysgol gyfan, athrofa a champws, yn ogystal â chanolbwyntio ar fyfyrwyr sydd â gwahanol ddulliau a lefelau astudio, a myfyrwyr o grwpiau sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol.

Canlyniadau: Demograffeg

Rhannwyd Arolwg Mawr yr UM gyda'r holl fyfyrwyr ym mis Tachwedd 2019 a derbyniwyd 841 o ymatebion, gan ddenu tair gwaith y lefel ymgysylltiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Cafwyd ymateb sylweddol o gampysau Abertawe, Caerfyrddin, Llambled, Caerdydd a Birmingham, gyda llai o ymateb gan fyfyrwyr Llundain a Dysgu o Bell. Cyflwynwyd a hyrwyddwyd yr arolwg yn ddwyieithog, a chawsom ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.


Cyfradd Ymateb Cyffredinol fesul Campws

- Roedd 43% o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr Abertawe
- Roedd 19% yn dod o Gaerfyrddin
- Roedd 13% yn dod o Llambed
- Myfyrwyr Birmingham oedd 12% o'n hymatebwyr
- Caerdydd 6%
- Llundain 2%
- Dysgwyr o bell oedd 5% o'r rhai a ymatebodd.



Cyfradd Ymateb Cyffredinol fesul Athrofa


- Roedd dros hanner (52%) ein hymatebwyr o'r Athrofa Addysg a Dyniaethau (IEH)
- Roedd 20% yn astudio yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (IMH)
- Roedd 13% o Gampws Llundain a Chanolfan Ddysgu Birmingham (LC / BLC)
- Roedd 15% yn dod o Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru (WISA)



Roedd mwyafrif (80%) yr ymatebwyr yn fyfyrwyr Israddedig, er bod pob lefel astudio yn cael ei chynrychioli yn y data ar gyfer yr arolwg. Roedd 13% o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir a 2% yn fyfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil. Roedd 6% o'r ymatebwyr yn fyfyrwyr Tystysgrif Mynediad. O ran y dull astudio, dywedodd 90% o'r ymatebwyr eu bod yn llawn-amser a 10% yn rhan-amser.

Mewn adran ddewisol o Arolwg Mawr yr UM, cynigiwyd cyfle i fyfyrwyr roi mewnwelediad pellach i'w demograffeg.


- Roedd 68% yn fenywod,
- 28% yn ddynion, ac
- ac 1% yn anneauaid.



Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed, er bod myfyrwyr o bob grŵp oedran wedi'u cynrychioli yn y data.

O ran ethnigrwydd, datgelodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn groenwyn ac yn Brydeinig neu'n Gymreig. Myfyrwyr CALIE oedd 15% o gyfanswm y rhai a ymatebodd. Rydym yn fodlon bod y gynrychiolaeth hon yn weddol agos at y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywioldeb 2018-19, oedd yn dangos bod cyfanswm CALIE yn 20.9%.

Dywedodd 29% o fyfyrwyr fod ganddyn nhw gyfrifoldebau gofalu, tra bod 23% wedi datgan anabledd neu gyflwr iechyd yn Arolwg Mawr yr UM. Rydym yn fodlon bod y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn i bob pwrpas yn cynrychioli corff myfyrwyr amrywiol PCyDDS, a bod myfyrwyr o grwpiau sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol wedi cynnig mewnwelediad i'w profiadau.



Mewn adroddiadau blaenorol rydym wedi cydnabod oherwydd bod ein harolygon wedi'u creu a'u hyrwyddo o fewn Undeb y Myfyrwyr, ei bod yn ddigon naturiol mai myfyrwyr sydd eisoes yn ymwneud â'n gweithgareddau yw cyfran sylweddol y rhai sy'n ymateb. Eleni, yn ogystal â hyrwyddo'r cyfle drwy fyfyrwyr sydd eisoes yn cymryd rhan weithredol yn ein gweithgareddau, estynnwyd allan at staff sy'n gyfrifol am bob Disgyblaeth Academaidd i ofyn am eu cymorth. Roeddem wrth ein bodd â'r ymateb, ac roeddem yn gallu cyflwyno ystod o weithgareddau yn y dosbarth gyda myfyrwyr ar draws PCyDDS. Cawsom rai ymatebion hefyd drwy estyn allan at ddysgwyr yn y gweithle a dysgwyr o bell. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli barn sampl ehangach.

Deilliannau


Tuedd 1: Cydraddoldeb o ran Fframwaith Tiwtor Personol / Blwyddyn

Mae fframwaith tiwtoriaid personol y Brifysgol yn ffynhonnell werthfawr ac effeithiol o gymorth academiaidd a bugeiliol i'w chorff myfyrwyr amrywiol. Mae adborth wedi dangos y gall wella ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn i fyfyrwyr yn PCyDDS, gan eu helpu i ffynnu a chyrraedd eu potensial unigol.

Yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd mae'r Brifysgol yn nodi bod y protocol hwn ar waith "i roi cymorth i fyfyrwyr ac i amddiffyn myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig". Mae gan p'un a yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth effeithiol drwy gydol eu hastudiaethau oblygiadau o ran lefelau boddhad, dargadwedd a dilynant. Adlewyrchir hyn yn [Siarter y Myfyrwyr](#), lle gwneir ymrwymiad i gymorth academiaidd a bugeiliol pob myfyriwr drwy'r fframwaith hwn, yn ogystal â chydabod bod hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at werthoedd cynwysoldeb ac addysgu rhagorol y sefydliad. Felly, yn unigol ac yn strategol, mae'n hanfodol bod cydraddoldeb yn y modd y darperir y gwasanaeth hwn ar draws y sefydliad.

I'r perwyl hwn, gofynnodd Arolwg Mawr yr UM i fyfyrwyr o bob rhan o'r Brifysgol a oedd ganddyn nhw diwtoriaid personol ac a oedden nhw'n fodlon â'r lefelau ymgysylltu â'u tiwtor personol. Dywedodd 67% o'r rhai a ymatebodd fod ganddyn nhw diwtor personol, a dywedodd y mwyafrif eu bod yn fodlon â pha mor aml maen nhw'n gallu cyfathrebu â nhw.

Rwyf yn cyfathrebu â'm tiwtor personol mor aml ag y mynnaf



Roedd data ansoddol a gasglwyd gan ymatebwyr hefyd yn dangos bod myfyrwyr yn hapus â lefel y gefnogaeth a gânt gan eu tiwtoriaid personol; eu bod yn cyfathrebu mor rheolaidd ag yr hoffent. Roedd myfyrwyr yn yr Athrofa Addysg a Dyniaethau yn barod iawn i ganmol. Mewn llawer o achosion, mae aelodau staff unigol wedi cael eu henwi mewn ymatebion cadarnhaol, a byddwn yn rhannu'r rhain ac yn dathlu gyda nhw maes o law.

Dyweddodd llawer o fyfyrwyr nad oeddent yn teimlo bod angen iddynt fynd at eu tiwtor personol am gymorth, ond eu bod yn gwybod eu bod yno pe byddent eisiau cefnogaeth o'r fath yn y dyfodol. Teimlwn fod hyn yn amlygu potensial y fframwaith, ac yn enwedig o ran Hierarchaeth Anghenion Myfyrwyr. Mae llawer sydd â mynediad at diwtor personol yn teimlo'n ddiogel, wedi'u grymuso ac yn hyderus wrth ddilyn eu hastudiaethau heb gefnogaeth, tra'u bod yn dawel eu meddwl bod rhywle i droi os oes angen:

"Dydw i ddim wedi wynebu anhawster sydd wedi'i gwneud yn ofynnol i mi gysylltu â fy nhiwtor personol, felly dydw i ddim wedi cael llawer o gyswllt â hi. Fodd bynnag, gwn y byddai yno i mi pe bai ei hangen arnaf."

- Myfyriwr BA Blynyddoedd Cynnar

"Mae fy nhiwtor personol wedi bod o gymorth mawr i mi, rwyf wedi siarad ag ef yn helaeth ynghylch fy amgylchiadau personol ac mae wedi cynnig llawer iawn o gefnogaeth. Mae hyn wedi gwneud fy mhrofiad yn y brifysgol yn haws."

- Myfyriwr TAR Uwchradd

"Rydw i bob amser yn derbyn atebion prydlon ac mae'r tiwtor bob amser yn llwyddo i roi cymorth neu'n fy nghyfeirio at rywun sy'n gallu helpu."

- Myfyriwr BA Addysg Gynhwysol


"Mae fy nhiwtor wedi bod yn hawdd mynd ato ac yn barod i helpu ar bob adeg yn ystod fy nghwrs. Rwy'n teimlo'n gyfforddus wrth fynd at fy nhiwtor am gyngor ac arweiniad ac yn hyderus fy mod bob amser wedi cael fy arwain yn y ffordd orau bosibl."

- Myfyriwr MA Dwyieithrwyddac Amlieithrwydd

Mae myfyrwyr wedi canmol staff yn gyson am fod yn hyblyg, yn dryloyw ac yn agored wrth gyfathrebu. Mae'r adborth cadarnhaol hwn yn awgrymu bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth effeithiol i ymgymryd â'u hastudiaethau, fel yr amlinellir yn Siarter y Myfyrwyr a gwerthoedd a chenhadaeth y Brifysgol; Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau. Mae'n bwysig nodi bod y duedd hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu ar bob lefel o astudio yn y Sefydliad.

Drwy edrych ar y data hwn ar lefel Athrofa, rydym wedi canfod meysydd lle nad oes gan fyfyrwyr yr un lefel o fynediad at y gwasanaethau cefnogol hyn â'u cyfoedion.

"Mae gen i diwtor personol"






Er bod hyn i raddau'n adlewyrchu cyfradd ymateb pob Athrofa, mae ein data yn dangos bod nifer y myfyrwyr sydd heb diwtor personol yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd (49%) ac Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru (45%) yn dal yn sylweddol uwch nag yn yr Athrofa Addysg a Dyniaethau (15%).

Yr hyn sy'n aneglur yw, a yw myfyrwyr heb diwtoriaid personol, neu a oes ganddyn nhw diwtoriaid personol ond dydyn nhw ddim yn ymwybodol ohonyn nhw. Yn y naill achos neu'r llall, credwn y gellir sicrhau gwell cydraddoldeb ar lefel Athrofa, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ar draws pob Disgyblaeth Academaidd yn gallu cyrchu'r gefnogaeth academaidd a bugeiliol sydd ei hangen arnynt, heb unrhyw rwystr. Fel yr amlinellwyd yn AAA 3, gyda ffiniau a hyfforddiant priodol, gallai hyn hefyd helpu â dynodi pryderon iechyd meddwl yn gynnar a chyfeirio unigolion at ffynonellau cymorth cyn iddynt gyrraedd lefel argyfwng.

Yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd ac yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru, mae cyfran uwch o fyfyrwyr yn teimlo'n ddifater tuag at lefel y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Er bod adborth yn parhau i fod yn llawer mwy cadarnhaol na negyddol, rydym wedi canfod maes lle y gellid cynyddu lefelau boddhad yn hawdd, a byddem o blaid mwy o ymdrech i rannu arfer da ar lefel Athrofa.

**“Rwyf yn cyfathrebu â’r tiwtor personol
mor aml ag y mynnaf” fesul Athrofa**

- Anghytuno
- Niwtral
- Cytuno



Cynigiodd rhai myfyrwyr eu syniadau mewn ymatebion i'r arolwg, sy'n awgrymu y gallai rheoli disgwyliadau a gwella cydraddoldeb o ran sut mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu hybu lefelau boddhad:

"Weithiau, mae cyfathrebu â thiwtor personol yn cael ei adael i'r myfyriwr, ac mae'n hawdd anghofio hyn gydag amserlen brysur ynghyd â gweithio ochr-yn-ochr ag astudiaethau, er enghraifft. Efallai y byddai cael eu hatgoffa drwy e-bost neu unrhyw gyfathrebiad arall gan y tiwtor personol, os nad yw wedi clywed yn uniongyrchol gan y myfyriwr, o fudd i lawer."

- Myfyriwr yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru

"Yn ffodus eleni, pennwyd tiwtor personol i mi, ond mae'n anodd cael gafael arno drwy e-bost, sy'n anodd i Ddysgwyr o Bell."

- Myfyriwr yn yr Athrofa Addysg a Dyniaethau

"Weithiau wrth e-bostio tiwtoriaid, dydyn nhw ddim yn ymateb, neu pan maen nhw'n gwneud hynny, mae'n rhy hwyr."

- Myfyriwr yn yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd

"Oes gennych chi diwtor personol?" fesul Campws

35%	Abertawe	63%	Birmingham
16%	Caerfyrddin	49%	Caerdydd
10%	Llambeth	32%	Dysgwr o bell
79%	Llundain		

Mae dehongli'r data fesul campws wedi datgelu meysydd lle mae grwpiau myfyrwyr dan anfantais o ran gallu cyrchu'r gefnogaeth a addawyd iddynt yn Siarter y Myfyrwyr. Gellir defnyddio'r math yma o fewnwelediad i daflu goleuni ar feysydd y dylai Athrofeydd roi sylw pellach iddynt.

Mae nifer y myfyrwyr sydd heb diwtoriaid personol yng Nghaerdydd ac Abertawe yn anghymesur o uchel, a dylid ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn sicrhau gwell cysondeb. Byddai Dysgwyr o Bell hefyd yn elwa o fwy o gefnogaeth.

Mae'n werth nodi, er bod yr ymatebion yn awgrymu'r gwrthwyneb, nad oes gan fyfyrwyr Llundain a Birmingham diwtoriaid personol. Mae'r data'n dangos y gallai myfyrwyr fod wedi drysu rhwng y rôl hon â'u darlithwyr, neu gallai awgrymu o bosibl bod rhai myfyrwyr yn teimlo bod cymorth priodol eisoes ar gael.

O ddweud hyn, dangosodd gweithgaredd yn y dosbarth gyda myfyrwyr yn Quay Place a Sparkhill, lle ysgogwyd sgysiau ynghylch mynediad at gymorth academiaidd a bugeiliol, y byddai cymorth o'r math yma'n cael ei werthfawrogi'n gan fyfyrwyr ar y cyfan. Mae eu sylwadau yn Arolwg Mawr yr UM hefyd yn adlewyrchu hyn:

"Cyfarfodydd un-i-un gyda darlithwyr i fynd drwy'r gwaith a sicrhau ein bod ni'n deall yn iawn yr hyn a ddisgwylir gennym."

- Myfyriwr BA Iechyd a Gofal Cymdeithasol

"Hoffwn gael mentor personol i helpu gyda fy aseiniadau, oherwydd weithiau rwy'n ei chael hi'n anodd deall. Gallai mentora roi cychwyn da i mi gyda fy ngwaith."

- Myfyriwr BA Iechyd a Gofal Cymdeithasol

"Nid oes gen i diwtor personol am y foment. Rwy'n gwneud fy aseiniadau ar sail fy ymchwil fy hun ac ar fy mhen fy hun. Rhag ofn y bydd angen help arnaf ar gyfer y dyfodol, byddwn yn hapus i weithio gyda thiwtor."

- Myfyriwr Tystysgrif AU Sgiliau ar gyfer y Gweithle

"Byddwn i wrth fy modd bod â thiwtor personol."

- Myfyriwr BA Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dylid ystyried adborth a gasglwyd yn ystod gweithgaredd yn y dosbarth ac mewn ymatebion i'r arolwg ochr yn ochr â chydabyddiaeth o gorff myfyrwyr PCyDDS Birmingham. Roedd cydnabyddiaeth yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd Rhannol a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham eu bod yn denu'r myfyrwyr hynny "na fyddent mewn llawer o achosion fel arall wedi breuddwydio am fynd ymlaen i addysg uwch, yn ogystal â myfyrwyr hyn sydd am wella'u cyfleoedd am gyflogaeth a'u sgiliau bywyd". Mae llawer yn dychwelyd i addysg drwy'r llwybr Tystysgrif Sgiliau AU ar gyfer y Gweithle, ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i feistrolï sgiliau academiaidd.

Ynghyd â hynny, mae tueddiadau yng ngwaith Undeb y Myfyrwyr ar achosion yn awgrymu bod myfyrwyr yn gofyn am gymorth yn dilyn honiadau o Gamymddwyn Academaidd yw 6% yr achosion y bu gofyn i Undeb y Myfyrwyr ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/20 hyd yn hyn. O'r rhain, mae 60% yn fyfyrwyr o gampws Llundain. Mae 3% o waith yr UM ar achosion eleni wedi ymwneud â myfyrwyr sy'n ceisio cyngor ar ôl cael eu tynnu oddi ar eu cyrsiau oherwydd presenoldeb gwael, a myfyrwyr Birmingham oedd 80% o'r achosion hynny. Er na all cyflwyno tiwtoriaid personol yn unig fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn, heb os, byddai myfyrwyr yn y lleoliadau hyn yn elwa o'r cymorth ychwanegol sydd ar gael ar bob campws arall o ran cyrhaeddiad a dargadwedd.

Ar adeg lle mae cyrhaeddiad myfyrwyr CLIE yn ffocws sefydliadol ar draws y sector ac o fewn y sefydliad, mae'n bwysig nodi'r effaith ar y grŵp hwn o fyfyrwyr oherwydd nad oes system yn bodoli yn Birmingham a Llundain. Mae data a gasglwyd drwy Arolwg Mawr yr UM yn awgrymu bod myfyrwyr CLIE yn cael eu heffeithio'n anghymesur yn sgil y ffaith gan nad oes ganddynt diwtoriaid personol. Dywedodd 50% o'r myfyrwyr CLIE a gymerodd ran yn ein harolwg nad oes ganddynt diwtor personol. Felly gallai cyflwyno gwell cydraddoldeb ar draws campysau fod yn gam addawol a chadarnhaol tuag at fynd i'r afael â bwlch cyrhaeddiad PCyDDS.

Tuedd 1 Argymhellion:



1.1. Byrdymor

Er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn deall y system tiwtoriaid personol ac yn derbyn cyfathrebu clir ynghylch pwy sydd wedi'u pennu fel tiwtoriaid ar eu cyfer, byddem o blaid system sy'n cynnwys mwy o atebolrwydd. Rydym yn ymwybodol o'r ffurflen Tiwtor Blwyddyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, y dylai'r myfyriwr ei llofnodi pan roddir enw eu tiwtor personol iddynt, ond rydym yn awgrymu y dylid llunio ffurflen fanylach yn amlinellu rôl a disgwyliadau, i'r myfyriwr a'r tiwtor personol ei llenwi a'i llofnodi mewn partneriaeth. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r broses Groesawu a Sefydlu fel bod cynsail yn cael ei osod ar gyfer gweddill taith academiaidd y myfyriwr.

Hoffem weld y data hwn yn cael ei fwydo i fecanwaith canolog er mwyn sicrhau bod modd mesur cynnydd. O ystyried y cyfle i rannu arfer da yn y maes hwn, rydym yn awgrymu y dylid cynhyrchu adroddiadau sy'n nodi lefelau ymgysylltu ar gyfer y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

1.2. Byrdymor

Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid oes gan fyfyrwyr ar gampysau Llundain a Birmingham fynediad at diwtoriaid personol. Byddem yn croesawu cyflwyno system sy'n gweithio i'r myfyrwyr hyn ac sy'n darparu cymorth iddynt sy'n debyg i'r hyn sydd ar gael ar bob un o gampysau eraill PCyDDS.

1.3. Hirdymor

Rydym yn ymwybodol bod y Brifysgol ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad llawn o'i system tiwtoriaid personol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer myfyrwyr a staff o ran y fframwaith. Byddem yn croesawu cyflwyno 'safonau sylfaenol' i'w harddangos yn glir fel rhan o'r gwaith ehangach hwn, i egluro disgwyliadau a chyflwyno gwell cydraddoldeb mewn meysydd fel campysau atodol PCyDDS. Hoffem weld y safonau hyn yn cael eu cynllunio mewn partneriaeth â myfyrwyr.

Deilliannau

Tuedd 2: Cydraddoldeb o ran Mynediad at Wasanaethau

Er na chawsant eu casglu'n benodol drwy gwestiynau yn Arolwg Mawr yr UM, mae gweithgaredd yn y dosbarth gyda myfyrwyr ar draws campysau atodol a chanolfannau allgymorth PCyDDS wedi datgelu tueddiadau o ran myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd cyrchu sawl gwasanaeth proffesiynol. Llwyddwyd cyrraedd a chael sgysiau ystyrlon gyda myfyrwyr oedd yn cael eu haddysgu mewn amryw o wahanol leoliadau; o Adeilad Cofrestrfa Prifysgol Cymru i Quay Place; Academi Llais Rhyngwladol Cymru i Ysgol Gynradd Hafren. Bu modd i ni hefyd gyrraedd myfyrwyr a oedd yn cael eu haddysgu ar ddydd Sadwrn a myfyrwyr Cwrs-Carlam Hyblyg a addysgir ar fin-nos o brif gampysau Cymru'r Brifysgol.

Mae'n bwysig nodi bod gan fyfyrwyr ym mhob maes adborth cadarnhaol i'w rannu ynghylch ansawdd eu haddysgu a lefel y gefnogaeth a gânt gan staff Academaidd a Phroffesiynol. Mae ymatebion y grwpiau myfyrwyr hyn yn Arolwg Mawr yr UM hefyd yn adlewyrchu lefelau cymharol uchel o foddhad. Roedd llawer - ac yn enwedig myfyrwyr oedd yn cael eu haddysgu y tu allan i oriau arferol rhwng 9 a 5 - yn canmol ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i allu ymgymryd â chwrs gradd o amgylch eu bywydau teuluol prysur a'u swyddi o ddydd i ddydd. Fel Undeb Myfyrwyr, rydym yn falch o'r gwaith da hwn, ac yn gefnogol iddo. Fodd bynnag, ym mhob achos, roedd cytundeb cyffredinol y gellid cyflwyno gwell cydraddoldeb o ran eu mynediad at wasanaethau pwysig y Brifysgol y tu allan i'w haddysgu. Gallai mynediad i'r cyfleusterau hyn gynorthwyo a gwella eu dysgu.

At ddibenion yr adroddiad hwn, byddwn yn crynhoi ein canfyddiadau o ran lleoliad, ond rydym yn deall drwy batrymau yng ngwaith yr UM ar achosion ac adborth gan Gynrychiolwyr Myfyrwyr bod y materion hyn yn berthnasol yn ehangach, ar draws y mwyafrif o gampysau atodol a chanolfannau allgymorth PCyDDS.

Myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu 'y tu allan i oriau arferol' ar y prif gampysau

Ymhlith y grwpiau myfyrwyr y buom yn siarad â nhw mae myfyrwyr Blynnyddoedd Cynnar FTF yng Nghaerfyrddin a myfyrwyr Addysg Gynhwysol yn IQ; fodd bynnag rydym yn cael ar ddeall bod myfyrwyr ar gysiau eraill sy'n cael eu cyflwyno ar benwythnosau ac ar fin-nos a allai fod yn dod ar draws problemau cyffelyb o ran mynediad. O ganlyniad i'r adroddiad hwn, bydd Undeb y Myfyrwyr yn mynd ar drywydd y myfyrwyr hynny.

Er bod yr adborth ynghylch eu haddysgu yn gadarnhaol ar y cyfan, amlygwyd y rhain fel meysydd ar gyfer datblygiad pellach:

- Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, roedd y grwpiau hyn o fyfyrwyr yn cael anhawster cyrchu'r Ddesg Gwasanaeth TG a'r Hwb, a arafodd y broses ymrestru i lawer. Dywedodd myfyrwyr fod rhai o'u cyfoedion wedi gadael eu cwrs oherwydd yr amhariad yma ar ddechrau eu taith fel myfyrwyr, gan eu darbwylllo rhag parhau â'u hastudiaethau yn PCyDDS. Gallai darparu'r gwasanaethau personol hyn fel eu bod yn fwy addas ar gyfer grwpiau myfyrwyr 'anhraddodiadol' gael effaith gadarnhaol ar ddargadwedd.

- Mae myfyrwyr wedi nodi anawsterau o ran cael mynediad i'r llyfrgell yn ystod yr oriau agor cyfredol, oherwydd bod llawer ohonynt yn gweithio'n llawn-amser er mwyn gallu cynnal eu hunain wrth astudio. Fodd bynnag, maent yn haeddu gallu cael mynediad at y gwasanaethau pwysig a gynigir drwy'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu; gan gynnwys sesiynau Sgiliau Gwybodaeth, mynediad at adnoddau corfforol a benthyg llyfrau, yn ogystal â'r defnydd o ardaloedd astudio tawel. Mae llawer o'r myfyrwyr sy'n perthyn i'r carfannau hyn yn cymudo o rannau eraill o'r wlad - mewn rhai achosion o gyn belled â Sir Benfro a Bryste - ond dywedodd rhai ohonynt eu bod yn teimlo na allant wneud y gorau o'u hymweliadau pan fyddant yma oherwydd diffyg hyblygrwydd yr oriau agor. Ynghyd â hyn, pan oedd myfyrwyr wedi llwyddo dod i'r campws yn ystod oriau agor ac wedi llwyddo i fenthyg llyfrau, dywedodd ambell un eu bod wedi wynebu dirwyon llyfrgell oherwydd nad oeddent yn gallu dychwelyd llyfrau tra'u bod nhw ar y campws. O ganlyniad i hyn, dywedodd amryw o fyfyrwyr eu bod wedi troi at ddefnyddio'r cyfleusterau yn llyfrgell Prifysgol Abertawe pan fyddant yn ymweld â'r ddinas. Roedd y myfyrwyr yn siomedig o orfod gwneud hyn, oherwydd y byddai'n well ganddyn nhw gefnogi PCyDDS, ond yn syml nid yw'r cyfleusterau sydd eu hangen arnyn nhw ar gael ar y campws ar amseroedd sy'n gyfleus iddyn nhw.

- Roedd myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar lwybrau FTF yng Nghaerdydd a Caerfyrddin yn rhannu rhwystredigaeth nad oeddent yn gallu cael gafael ar Gymorth Dysgu ar adeg pan nad oedden nhw yn y gwaith eu hunain. Er y codwyd yr achosion unigol hyn gyda'r tim Gwasanaethau Myfyrwyr ar y pryd, rydym yn teimlo bod hyn yn werth ei nodi oherwydd ei bod yn bosibl bod y materion hyn i'w teimlo mewn mannau arall, ac efallai bod problem ehangach o ran cymorth hyblyg.

Myfyrwyr ar gampysau atodol a chanolfannau allgymorth

Fel yn yr achosion uchod, mae ymweliadau Undeb y Myfyrwyr â champysau atodol y Brifysgol wedi ysbrydoli sgysiau ynghylch cyfleusterau sydd ar gael mewn mannau eraill yr hoffai myfyrwyr eu cyrchu. Ymhlith yr enghreifftiau mae mynediad i fannau cymdeithasol a hamdden, swyddfa Undeb y Myfyrwyr a chyfleusterau llyfrgell (yn ychwanegol i wasanaeth llyfrgell gyfeirio'n unig). Fodd bynnag, gellir dwyn ynghyd rhai ceisiadau penodol:

- Mewn rhai achosion, byddai myfyrwyr sy'n dysgu drwy ganolfannau allgymorth (fel YMCA Caerdydd) yn elwa o allu cyrchu cyfleusterau mwy cadarn. Ar hyn o bryd, mae llawer yn mynychu dosbarthiadau nos ar ôl gwaith, heb fynediad at gyfleusterau TG na lluniaeth ysgafn.
- Mae myfyrwyr yn Birmingham yn parhau i ofyn am ystafelloedd gweddïo aml-ffydd yn Sparkhill. Awgrymwyd y gallent deithio i gyfleusterau lleol sawl gwaith y dydd fel ateb dros dro, ond mae hyn yn tarfu ar eu dysgu. Byddai cyfleusterau o'r fath hefyd o fudd i gampysau atodol eraill.
- Byddai pob campws yn elwa o osod dolenni cymorth clyw neu Dechnoleg Gynorthwyol arall er mwyn ei gwneud yn haws i fyfyrwyr byddar a thrwm eu clyw gyfranogi. Codwyd y mater hwn yn Birmingham, ond byddai o fudd i lawer mwy pe bai'n cael ei gyflwyno ar draws holl safleoedd PCyDDS.
- Mae myfyrwyr yn Llundain a Birmingham wedi awgrymu drwy adborth y byddent yn elwa o gymorth ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau academiaidd. Mae sgiliau llythrennedd digidol, sgiliau cyfeirnod ac ymchwil i gyd wedi'u dynodi fel meysydd ar gyfer sylw pellach gan fyfyrwyr mewn cyfarfodydd Cynrychiolwyr Cwrs, ac mae tystiolaeth bellach sy'n ategu hyn i'w gweld yng ngwaith Undeb y Myfyrwyr ar achosion.
- Fel Undeb Myfyrwyr, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod cysondeb yn y disgwyliadau sydd gan y Brifysgol ar gyfer eu myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth o ran Rheoliadau Academiaidd rhwng safleoedd Cymru a LC / BLC. Er enghraifft, mae disgwyliadau presenoldeb a phrosesau apelio yn wahanol yn y lleoliadau hyn, ac mae tueddiadau yng ngwaith yr UM ar achosion (a amlygwyd yn gynharach) yn awgrymu bod myfyrwyr LC / BLC dan anfantais oherwydd hyn.

Tuedd 2 Argymhellion:

2

2.1. Byrdymor

Dylid defnyddio platfformau ar-lein (Amgylcheddau Dysgu Rhithwir, Microsoft Teams, a.y.b.) yn well mewn meysydd lle mae myfyrwyr yn dysgu i ffwrdd o'r tri phrif gampws. Hoffai Undeb y Myfyrwyr weld staff yn defnyddio'r rhain mewn ffyrdd mwy creadigol a chadarn, yn enwedig yn ystod y cyfnod Croesawu a Sefydlu, i sicrhau bod grwpiau myfyrwyr 'anhraddodiadol' yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn fwy hyderus wrth fynd i'r afael â'u hastudiaethau. Er enghraifft, gellid cyflwyno sesiynau Sgiliau Gwybodaeth Llyfrgell drwy diwtorialau ar-lein a gellid annog cyfranogiad ar lefel rhaglen.

2.2. Byrdymor

Pan gyflwynir cyrsiau o ganolfannau allgymorth a champysau atodol - neu y tu allan i 'oriau agor' y Brifysgol - dylid cynnal archwiliad o'r cyfleusterau a gynigir i gynorthwyo addysgu ar y cyrsiau hyn ar lefel rhaglen. Dylid ymgynghori'n rhagweithiol â myfyrwyr a'u cynnwys yn y broses hon. Lle mae unrhyw grwpiau o fyfyrwyr dan anfantais, rydym yn awgrymu y dylid cynnig gwell atgyfeirio i'r carfannau hyn fel strategaeth fyr-dymor.

Mae 2.1 a 2.2 yn argymhellion amserol yng ngoleuni cyflwyno cyfleoedd dysgu mwy cyfunol. Er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl mesur hyn, rydym yn awgrymu bod y ddau argymhelliad yn ffurfio rhan o brosiect partneriaeth parhaus rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gyda'r datblygiadau diweddaraf i'w rhannu gan aelod staff a enwebir a Llywydd y Grŵp yn y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

2.3. Hirdymor


Yn ein canfyddiadau uchod rydym wedi tynnu sylw at feysydd penodol lle mae diffyg adnoddau yn effeithio ar ddysgu myfyrwyr. Hoffem ofyn bod cydraddoldeb o ran profiad a chyfleusterau o'r math yma'n cael eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer safleoedd newydd PCyDDS yn y dyfodol.

Deilliannau

Tuedd 3: Llais Myfyrwyr

Mewn ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr y llynedd ynghylch Llais Myfyrwyr, a ddangosodd ychydig o ostyngiad yn y lefelau boddhad cyffredinol (-1.1%), defnyddiwyd Arolwg Mawr yr UM fel cyfle i brofi gwybodaeth myfyrwyr am y systemau sydd ar waith i lywio eu lleisiau a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Credwn fod yr ymchwil hwn hefyd yn amserol oherwydd y newidiadau yn dilyn ailstrwythuro'r Brifysgol, a chyflwyno Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr ar draws athrofeydd, a allai fod wedi effeithio ar ddealltwriaeth myfyrwyr. Mae'r Llawlyfr Ansawdd Academiaidd yn amlinellu y dylid ymgorffori gweithgaredd llais myfyrwyr mewn cynllunio ar lefel sefydliadol, ac o'r herwydd, mae ein canfyddiadau yn gyfle da i gynllunio ac ymgorffori'r gwaith pwysig hwn ymhellach, mewn cydweithrediad â'r Brifysgol.


Gofynnwyd i'r myfyrwyr a oedd ganddyn nhw Gynrychiolydd Cwrs, oedden nhw wedi cael cyfle i gynnig eu hunain ar gyfer rôl Cynrychiolydd Cwrs, ac a oeddent yn gwybod pwy yw eu Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr. Wrth ofyn y cwestiynau hyn, roeddem yn gallu nodi meysydd penodol a oedd angen sylw pellach. Ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2019/20 cofnododd Undeb y Myfyrwyr gyfanswm o 387 o Gynrychiolwyr Cwrs ar draws PCyDDS. Yn sgil holi'r myfyrwyr yn gyffredinol, dywedodd 69% ohonynt fod ganddyn nhw Gynrychiolydd Cwrs.



Mae'r data a gasglwyd ar lefel Athrofa wedi dangos bod cynrychiolaeth myfyrwyr drwy Gynrychiolwyr Cwrs yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru 10 pwynt canran yn uwch o gymharu â'r Athrofa Rheolaeth ac Iechyd. Mae dadansoddiad mewnol o Gynrychiolwyr Cwrs Undeb y Myfyrwyr fel a ganlyn:


85	Athrofa Addysg a Dyniaethau
99	Campws Llundain a Chanolfan Ddysgu Birmingham
91	Athrofa Rheolaeth ac Iechyd
112	Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru

"Mae gen i gynrychiolydd cwrs"



Nododd Undeb y Myfyrwyr fod llawer o arfer da yn AGChC, ac yn enwedig ym maes Cyfrifiadureg. Yn y Ddisgyblaeth Academiaidd hon, mae myfyrwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy sgysiau Sefydlu gyda phob lefel, a hynny bob Semester, er mwyn dangos sut mae'r sefydliad wedi ymateb i adborth myfyrwyr a gweithredu ar yr adborth hwnnw. Dylid dathlu'r lefel hon o ymgysylltiad ac ymateb, ac mae'n rhoi lle amlwg i Lais Myfyrwyr wrth gynllunio ar gyfer y Ddisgyblaeth. Mae'r Ddisgyblaeth yn gwneud ymdrech ychwanegol i gau'r ddolen adborth a rhoi cyhoeddusrwydd i effaith llais myfyrwyr. Mae'n ddiddorol nodi, o'r 30 a ymatebodd o'r maes hwn, bod 73% o'r myfyrwyr hyn yn dweud eu bod yn fodlon â'r dulliau cyfathrebu, gydag ambell un yn defnyddio'r cyfle i gynnig adborth pellach gan ddweud eu bod yn teimlo bod digonedd o wybodaeth ar gael iddynt. Dau ymatebydd yn unig o'r maes hwn a ddywedodd eu bod yn anfodlon â sut roedd gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu. Er bod y data hwn yn mynd i'r afael â chyfathrebu'n cyffredinol, gall cynnal sesiynau briffio rheolaidd gyda'r garfan gyfan, lle anogir myfyrwyr i leisio'u pryderon a chael sgysiau cynhyrchol am eu profiadau, ddylanwadu ar eu lefelau boddhad yn y maes hwn.

"Cefais gyfle i enwebu fy hun fel cynrychiolydd cwrs"



Fesul Campws

Gan edrych ar ymatebion i'r arolwg fesul campws, rydym wedi canfod meysydd lle mae bylchau mwy sylweddol yng ngwybodaeth myfyrwyr ynghylch y strwythurau cynrychiolaeth sydd ar waith. Gallai hyn naill ai awgrymu nad yw myfyrwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol yn y meysydd hyn, neu y dylid gwella cyfathrebu am y systemau hyn. Fel rhan o'n cylch busnes blynyddol, rydym yn cynnig Hyfforddiant Llais Myfyrwyr i garfannau newydd o fyfyrwyr. Mae'n werth nodi, er bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus, nid yw pawb wedi manteisio ar y cyfle.

Ymatebodd llawer o'r dysgwyr o bell - dim ond 17% o'r rhain dywedodd fod ganddynt Gynrychiolwyr Cwrs - drwy awgrymu naill ai bod gweithgaredd llais myfyrwyr yn amherthnasol iddyn nhw, neu eu bod heb dderbyn unrhyw wybodaeth am gynrychiolaeth academiaidd ar ddechrau eu cwrs:

"Nid yw'r uchod yn arbennig o berthnasol gan fy mod i'n ddysgwr o bell, felly dydw i ddim yn teimlo'r angen i ymwneud cymaint â'r agwedd hon."

- Myfyriwr MA Hanes yr Hen Fyd

"Fel dysgwr o bell, rydw i'n teimlo fy mod i ar fy mhen fy hun o ran cynrychiolaeth myfyrwyr."

- Myfyriwr BA Rheolaeth Busnes

"Fel myfyriwr cwrs meistri sy'n astudio o bell, dwi wir ddim yn credu bod gennym ni gynrychiolydd cwrs. Mae'r hyn rwy'n ei wybod oherwydd y ffaith fy mod i'n ymwneud â'r UM, nid oherwydd fy mod wedi cael gwybod yn y dosbarth."

- Myfyriwr MA Crefydd yr Hen Fyd

"Fel dysgwr o bell mae weithiau'n anodd teimlo fy mod i'n perthyn go lawn."

- Myfyriwr BA Astudiaethau Celtaidd


"Nid oedd unrhyw broses sefydlu ar gyfer dysgwyr o bell."

- Myfyriwr MA Sêr-ddewiniaeth
Ddiwylliannol a Seryddiaeth


Yn wir, dim ond 37% o'r rhai sy'n dysgu o bell ddywedodd eu bod wedi cael cyfle i gynnig eu hunain fel Cynrychiolydd Cwrs. Mae data ansoddol a meintiol yn awgrymu y dylem, mewn cydweithrediad â staff academiaidd sy'n cyflwyno'r cyrsiau hyn, fod yn ymdrechu i wneud gweithgaredd Llais Myfyrwyr yn fwy gweladwy i'r grwpiau hyn. Bydd gwneud rhywfaint o waith yn y maes hwn yn sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n well ac yn chwarae mwy o ran yng nghymuned y Brifysgol. Fel Undeb Myfyrwyr rydym wedi cynhyrchu a dosbarthu adnoddau i gynorthwyo

ag ethol Cynrychiolwyr Cwrs yn y dosbarth. Byddem yn croesawu'r cyfle i edrych yn fanylach ar y rhain gan roi sylw pellach i'r meysydd sydd wedi cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.

“Mae gen i gynrychiolydd cwrs”




“Cefais gyfle i enwebu fy hun fel cynrychiolydd cwrs”



Fel Undeb Myfyrwyr, rydym yn cydnabod y lefelau uchel o weithgaredd yn Birmingham a ddarperir drwy eu Swyddogion Profiad Myfyrwyr. Gelwir myfyrwyr yn “Gynrychiolwyr Dosbarth” a “Chynrychiolwyr Myfyrwyr” yn hytrach na “Chynrychiolwyr Cwrs” yn y lleoliad hwn, a allai felly fod wedi effeithio ar sut yr atebodd myfyrwyr y cwestiwn hwn. Roedd yr adborth gan fyfyrwyr yn Birmingham yn canmol eu Cynrychiolwyr yn fawr, ac yn awgrymu bod llawer yn ymwneud yn weithredol â'r systemau sydd ar waith. Fodd bynnag, byddai'n syniad da mynd ati i wella cydraddoldeb o ran profiadau a disgwyliadau Cynrychiolwyr Cwrs ar bob un o gampysau atodol PCyDDS.


Gan rannu myfyrwyr yn ôl lefel astudio, dywedodd myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (ÔRA) eu bod nhw'n ymwneud llai â'u cynrychiolaeth. I ategu'r data hwn, roedd 55% o'r myfyrwyr ÔRA a holwyd wedi'u lleoli yn Abertawe, roedd 24% yn ddysgwyr o bell, ac roedd 14% yn astudio ar gampws Llambled. Felly mae darparu a chynyddu gwybodaeth myfyrwyr ÔRA yn y meysydd hyn yn awgrym a fyddai'n gwella cydraddoldeb o ran profiad.

"Mae gen i gynrychiolydd cwrs"






Yn ogystal, mae ymatebion i Arolwg Mawr yr UM wedi dangos bod myfyrwyr rhan-amser o dan anfantais, yn gymharol, o ran eu cynrychiolaeth academiaidd. Mae'n debygol bod llawer o fyfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir hefyd ar lwybrau rhan-amser i gynnal datblygiad eu gyrfa. Fel Undeb Myfyrwyr mae gennym adnoddau ar gael yn rhwydd ar gyfer y grwpiau hyn o fyfyrwyr. Gallwn hefyd gynnig dulliau amgen, mwy hyblyg o ymgysylltu â nhw (gan gynnwys defnyddio llwyfannau a chynnwys ar-lein, ac Amgylcheddau Dysgu Rhithwir), ond bydd ymgysylltiad gan staff Academiaidd a gwaith partneriaeth â mwy o ffocws yn hanfodol er mwyn i hyn fod yn effeithiol.

"Mae gen i gynrychiolydd cwrs"



Yn olaf, mae sefydlu Cynrychiolwyr Llais Myfyrwyr yn lle Cynrychiolwyr Cyfadran yn dilyn ailstrwythuro'r Brifysgol wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer gofyn i fyfyrwyr ynghylch eu gwybodaeth am y rôl hon. Yn ôl y disgwyl, mae gwybodaeth myfyrwyr yn parhau i fod yn is na gwybodaeth am eu Cynrychiolwyr Cwrs. Ni recriwtiwyd unrhyw Gynrychiolwyr Llais Myfyrwyr yn yr Athrofa Rheolaeth ac lechyd; byddwn yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y misoedd nesaf. Mae 52% o'r myfyrwyr yn Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru a 53% o'r myfyrwyr yn yr Athrofa Addysg a Dyniaethau yn gwybod pwy yw eu Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr. Dywedodd 58% o'r myfyrwyr sy'n astudio ar Gampws Llundain ac yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham eu bod yn gwybod pwy yw eu Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr. Rydym yn edrych ymlaen at gynyddu ymwybyddiaeth o'r rôl bwysig hon mewn cydweithrediad â'r Athrofeidd yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf.

**“Rwyf yn gwybod pwy yw
fy nghynrychiolydd Llais
Myfyrwyr”**



Tuedd 3 Argymhellion:

3

3.1. Byrdymor

Er mwyn sicrhau gwell cydraddoldeb o ran profiad ar gampysau atodol PCyDDS, hoffem weld rhanddeiliaid allweddol yn cael eu dynodi ym mhob lleoliad ac ar gyfer dysgwyr o bell ym mhob Athrofa. Fel Undeb Myfyrwyr, hoffem weithio mewn partneriaeth â'r unigolion hyn i ddatblygu gweithgaredd llais myfyrwyr mwy cadarn, a hynny ar gyfer carfannau penodol.

3.2. Byrdymor

Gan ddilyn 3.1 ymhellach, gellid defnyddio Moodle yn well wrth ddarparu gweithgaredd llais myfyrwyr ar gyfer grwpiau myfyrwyr 'anoddach eu cyrraedd', gan gynnwys dysgwyr rhan-amser, Ôl-raddedigion a Addysgir a dysgwyr o bell. Dyma gyfle arall ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng staff academiaidd ac Undeb y Myfyrwyr.

Dylid mesur lefelau ymgysylltiad a boddhad (drwy adborth a data o arolygon) ac adrodd yn ôl ar hyn yng nghyfarfodydd Bwrdd pob Athrofa.

3.3. Hirdymor

Fel Undeb Myfyrwyr, byddem yn croesawu cyflwyno agwedd fwy rhagweithiol tuag at weithgaredd llais myfyrwyr mewn rhai meysydd. Bydd trefnu sgysiau Sefydlu gorfodol ar ddechrau pob Semester i ddangos sut yr ymatebwyd i adborth drwy'r systemau cynrychiolaeth sydd ar waith yn atgyfnerthu gwerth llais myfyrwyr. Gall hyn hybu lefelau ymgysylltiad a boddhad myfyrwyr.

Casgliad

Mae ein hymchwil eleni, sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb profiad, wedi arwain at ymateb gan fyfyrwyr sy'n awgrymu bod lefelau boddhad cyffredinol yn uchel. Mae adborth a gasglwyd drwy ddulliau meintiol ac ansoddol wedi arddangos llawer iawn o arfer da ar lefel Prifysgol, Athrofa a rhaglenni unigol ar draws PCyDDS. Fel Undeb Myfyrwyr rydym yn hynod gefnogol ac yn falch o'r cyflawniadau hyn, ac yn edrych ymlaen at rannu llwyddiannau unigol o fewn y meysydd hyn yn dilyn dosbarthu'r adroddiad hwn.

Mae myfyrwyr hefyd wedi nodi anghysondeb mewn nifer o feysydd, sydd, yn ein barn ni, yn rhoi cyfle delfrydol i'r Brifysgol ymateb, gan ddangos ei hymrwymiad i ansawdd a thegwch profiadau ei myfyrwyr.

Tabl o Argymhellion

1.1

Er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr yn deall y system tiwtoriaid personol ac yn derbyn cyfathrebu clir ynghylch pwy sydd wedi'u pennu fel tiwtoriaid ar eu cyfer, byddem o blaid system sy'n cynnwys mwy o atebolrwydd. Rydym yn ymwybodol o'r ffurflen Tiwtor Blwyddyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, y dylai'r myfyriwr ei llofnodi pan roddir enw eu tiwtor personol iddynt, ond rydym yn awgrymu y dylid llunio ffurflen fanylach yn amlinellu rôl a disgwyliadau i'r myfyriwr a'r tiwtor personol ei llenwi a'i llofnodi mewn partneriaeth. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r broses Groesawu a Sefydlu fel bod cynsail yn cael ei osod ar gyfer gweddill taith academiaidd y myfyriwr.

Hoffem weld y data hwn yn cael ei fwydo i mewn i fecanwaith canolog er mwyn sicrhau bod modd mesur cynnydd. O ystyried y cyfle i rannu arfer da yn y maes hwn, rydym yn awgrymu y dylid cynhyrchu adroddiadau sy'n nodi lefelau ymgysylltu ar gyfer y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

1.2

Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid oes gan fyfyrwyr ar gampysau Llundain a Birmingham fynediad at diwtoriaid personol. Byddem yn croesawu cyflwyno system sy'n gweithio i'r myfyrwyr hyn er mwyn darparu cymorth iddynt sy'n cymharu â'r hyn sydd ar gael ar bob un o gampysau eraill PCyDDS.

1.3

Rydym yn ymwybodol bod y Brifysgol ar hyn o bryd yn ymgymryd ag adolygiad llawn o'i system tiwtoriaid personol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer myfyrwyr a staff o ran y fframwaith. Byddem yn croesawu cyflwyno 'safonau sylfaenol' i'w harddangos yn glir fel rhan o'r gwaith ehangach hwn, i egluro disgwyliadau a chyflwyno gwell cydraddoldeb mewn meysydd fel campysau atodol PCyDDS. Hoffem weld y safonau hyn yn cael eu cynllunio mewn partneriaeth â myfyrwyr.

2.1

Dylid defnyddio platfformau ar-lein (Amgylcheddau Dysgu Rhithwir, Microsoft Teams, a.y.b.) yn well mewn meysydd lle mae myfyrwyr yn dysgu i ffwrdd o'r tri phrif gampws. Hoffai Undeb y Myfyrwyr weld staff yn defnyddio'r rhain mewn ffyrdd mwy creadigol a chadarn, yn enwedig yn ystod y cyfnod Croesawu a Sefydlu, i sicrhau bod grwpiau myfyrwyr 'anhraddodiadol' yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn fwy hyderus wrth fynd i'r afael â'u hastudiaethau. Er enghraifft, gellid cyflwyno sesiynau Sgiliau Gwybodaeth Llyfrgell drwy diwtorialau ar-lein a gellid annog cyfranogiad ar lefel rhaglen.

2.2

Pan gyflwynir cyrsiau o ganolfannau allgymorth a champysau atodol - neu y tu allan i 'oriau agor' y Brifysgol - dylid cynnal archwiliad o'r cyfleusterau a gynigir i gynorthwyo addysgu ar y cyrsiau hyn ar lefel rhaglen. Dylid ymgynghori'n rhagweithiol â myfyrwyr a'u cynnwys yn y broses hon. Lle mae unrhyw grwpiau o fyfyrwyr dan anfantais, rydym yn awgrymu y dylid cynnig gwell atgyfeirio i'r carfannau hyn fel strategaeth fyr-dymor.

Mae 2.1 a 2.2 yn argymhellion amserol yng ngoleuni cyflwyno cyfleoedd dysgu mwy cyfunol. Er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl mesur hyn, rydym yn awgrymu bod y ddau argymhelliad yn ffurfio rhan o brosiect partneriaeth parhaus rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gyda'r datblygiadau diweddaraf i'w rhannu gan aelod staff a enwebir a Llywydd y Grŵp yn y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr.

2.3

Yn ein canfyddiadau uchod rydym wedi tynnu sylw at feysydd penodol lle mae diffyg adnoddau yn effeithio ar ddysgu myfyrwyr. Hoffem ofyn bod cydraddoldeb o ran profiad a chyfleusterau o'r math yma'n yn cael eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer safleoedd PCyDDS newydd yn y dyfodol.

3.1

Er mwyn sicrhau gwell cydraddoldeb o ran profiad ar gampysau atodol PCyDDS, hoffem weld rhanddeiliaid allweddol yn cael eu dynodi ym mhob lleoliad ac ar gyfer dysgwyr o bell ym mhob Athrofa. Fel Undeb Myfyrwyr, hoffem weithio mewn partneriaeth â'r unigolion hyn i ddatblygu gweithgaredd llais myfyrwyr mwy cadarn, a hynny ar gyfer carfannau penodol.

3.2

Gan ddilyn 3.1 ymhellach, gellid defnyddio Moodle yn well wrth ddarparu gweithgaredd llais myfyrwyr ar gyfer grwpiau myfyrwyr 'anoddach eu cyrraedd', gan gynnwys dysgwyr rhan-amser, Ôl-raddedigion a Addysgir a dysgwyr o bell. Dyma gyfle arall ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng staff academiaidd ac Undeb y Myfyrwyr.

Dylid mesur lefelau ymgysylltiad a boddhad (drwy adborth a data o arolygon) ac adrodd yn ôl ar hyn yng nghyfarfodydd Bwrdd pob Athrofa.

3.3

Fel Undeb Myfyrwyr, byddem yn croesawu cyflwyno agwedd fwy rhagweithiol tuag at weithgaredd llais myfyrwyr mewn rhai meysydd. Bydd trefnu sgysiau Sefydlu gorfodol ar ddechrau pob Semester i ddangos sut yr ymatebwyd i adborth drwy'r systemau cynrychiolaeth sydd ar waith yn atgyfnerthu gwerth llais myfyrwyr. Gall hyn hybu lefelau ymgysylltiad a boddhad myfyrwyr.